# Eich Newyddlen

Newyddlen y tenantiaid ar gyfer Gwasanaethau Tai Sir Ddinbych



**Rhifyn Un - Hydref 2017**

# Cyflwyno ein hunaniaeth newydd sbon

Yn ystod y misoedd diwethaf efallai eich bod wedi sylwi ein bod wedi cryfhau ein hunaniaeth gyda logo newydd ac edrychiad newydd ar gyfer ein cyhoeddiadau a'n faniau. Mae Gwasanaethau Tai Sir Ddinbych yn wasanaeth llwyddiannus ac mae'n cymharu'n ffafriol ag eraill yn ein maes. Rydym am i'n hunaniaeth adlewyrchu hyn a chaniatáu i'n staff a thenantiaid deimlo'n falch o Wasanaethau Tai Sir Ddinbych.

**Trowch i dudalen 4 a 5 i ddarganfod mwy!**



## Buddsoddi

Mae Gwasanaethau Tai Sir Ddinbych yn falch iawn o gyflwyno cynllun gwella £1m arloesol o 33 fflat yn Ffordd Caradog, Prestatyn.

**Tudalen 6**

## Canlyniadau Arolwg STAR

Dywedodd 86% o'n tenantiaid yn fodlon ar ansawdd cyffredinol eu cartref. I ganfod mwy am yr hyn a ddywedoch, ewch i.

**Dudalen 10**

## Cymunedau

Rydym yn croesawu ein tîm newydd o Gydlynwyr Datblygu Cymunedol a'r gwaith y maent yn ei wneud yn ein cymunedau a gyda nhw.

**Tudalen 7**

Tai Sir Ddinbych
Denbighshire Housing
Buddsoddi yn ein Cymunedau • Investing in our Communities

www.taisirddinbych.co.uk
www.denbighshirehousing.co.uk

Cyngor sir ddinbych
denbighshire County Council

# Yn y rhifyn hwn


## Gwasanaethau Tai Sir Ddinbych:

Croeso oddi wrth Jamie Groves **Td.3**

Hunaniaeth newydd **Td.4**

Lansio cynllun cofrestr tai newydd **Td.17**

Diweddariad ar yr Hawl i Brynu **Td.17**

## Cymuned a Phobl:

Diweddariad ar Gymdeithas Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych **Td.3**

Datblygu Cymunedol: **Td.7**

- Canolfannau Cymunedol
- Prosiectau
- Digwyddiadau

Gwelliannau ardal chwarae **Td.7**

Diweddariad ar wella Parc Bruton **Td.8**

Canlyniadau Arolwg STAR a Beth Nesaf? **Td.10**

Cymryd Rhan **Td.16**

Cystadleuaeth, eich Newyddlen **Td.17**

Rheoli'ch arian – Credyd Cynhwysol **Td.18**

## Buddsoddiad:

Ffordd Caradoc, Prestatyn **Td.6**

Cynllun gwelliannau allanol ac amgáu **Td.7**

Y buddsoddiad dros y deuddeng mis nesaf yn ein cymunedau: **Td.12**

- Bro Havard, Llanelwy
- Tan yr Eglwys, Rhuddlan
- Porth y Wern, Aberchwiler
- Bodfari

Datblygiadau Tai: **Td.19**

- Cynlluniau adeiladau newydd ar gyfer 2018

## Gofod Gwyrdd:

Prosiect Blodau Gwyllt Pengwern **Td.9**


## Bwrdd Bwletin



**Llinell Ofal**
**0300 123 3068**

**Gwasanaethau Cwsmeriaid**
**01824 706000**

**Argyfwng y tu allan i oriau swyddfa**
**0300 123 3068**

**Cydlynwyr Datblygu Cymunedol:**

**Canolbarth Sir Ddinbych**
Sarah Jones
01824 706873 / 07880723157
sarah.elizabeth.jones@denbighshire.gov.uk

**Ardal yr Arfordir**
Nikki Jones
01824 706967 / 07748333892
nikki.jones@denbighshire.gov.uk

**De Sir Ddinbych**
Emily Reddy
01824 706998 / 07748166360
emily.reddy@denbighshire.gov.uk





# Cyflwyniad oddi wrth Jamie Groves

Pennaeth Cyfleusterau, Asedau a Thai

Helo a chroeso i rifyn cyntaf ein Newyddlen Gwasanaethau Tai Sir Ddinbych newydd. Bu'n sbel ers i ni anfon newyddlen fanwl i chi fel hyn ac rydym yn edrych ymlaen at glywed eich barn ar ei gynnwys a'i arddull. Hefyd, os oes gennych unrhyw sylwadau ar yr wybodaeth yr hoffech ei derbyn gennym ni yn y dyfodol, a sut yr hoffech ei derbyn, rhowch wybod i ni. Gobeithiwn y byddwch yn cytuno, mae'r newyddlen hon yn dangos bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud.

Ein ffocws yw buddsoddi yn ein cymunedau ac mae gennym gynlluniau cyffrous i adeiladu cartrefi cyngor newydd am y tro cyntaf ers 25 mlynedd. Yn ogystal, rydym hefyd wedi:

- gwella'n sylweddol y safonau ar gyfer ail-osod ein cartrefi i denantiaid newydd,
- buddsoddwyd yn sylweddol yn ein mannau chwarae gyda mwy i ddod,
- gwella sut rydym yn rheoli ein mannau gofod agored, a
- parhau i gynllunio gwelliannau pellach i'n cartrefi i ragori ar y safonau a ddisgwylir oddi wrthym.

Mae hyn yn fwy na buddsoddiad ariannol. Rydym hefyd wedi penodi tri Cydlynydd Datblygu Cymunedol newydd a swyddog Cynhwysiant Ariannol a Digidol i gefnogi a datblygu ein cymunedau.

# Neges oddi wrth Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych (DTARF)

Ffederasiwn Tenantiaid a Thrigolion Sir Ddinbych
Denbighshire Tenants and Residents Federation

Rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda staff o Gwasanaethau Tai Sir Ddinbych ac i herio'r Cyngor ar faterion yr ydym yn teimlo sy'n bwysig i chi.

**Dros y misoedd diwethaf, rydym wedi:**

- trefnu gweithdy cynnal a chadw tir gyda chontractwyr Sherratts,
- adolygu Cynllun Busnes Blynyddol Gwasanaethau Tai Sir Ddinbych,
- herio'r gwasanaeth atgyweirio,
- cael yr wybodaeth ddiweddaraf am raglenni gwella, a
- anfon cynrychiolwyr i Gynhadledd Flynyddol Tenantiaid Cymru (TPAS).

**Dros y misoedd nesaf byddwn yn:**

- gweithio i weld a ellir gwella mwy ar y gwasanaeth atgyweirio,
- datblygu'r defnydd o'n canolfannau cymunedol,
- gweithio gyda staff i wella gwefan Gwasanaethau Tai Sir Ddinbych, a
- gweithio gyda'r staff Datblygu Cymunedol newydd i gefnogi ein cymunedau.


Rydym am barhau i ehangu ein cynrychiolaeth o'r holl denantiaid ym mhob cymuned, felly dewch draw i gwrdd â ni, dywedwch wrthym beth rydych yn ei feddwl a gallwn gefnogi ei gilydd wrth fynd ymlaen.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â eich swyddog datblygu cymunedol lleol.

# Hunaniaeth Newydd Gwasanaethau Tai Sir Ddinbych




**Yn ystod y misoedd diwethaf efallai eich bod wedi sylwi ein bod wedi cryfhau ein hunaniaeth gyda logo newydd ac edrychiad newydd ar gyfer ein cyhoeddiadau a'n faniau. Mae Gwasanaethau Tai Sir Ddinbych yn wasanaeth llwyddiannus ac mae'n cymharu'n ffafriol ag eraill yn ein maes. Rydym am i'n hunaniaeth adlewyrchu hyn a chaniatáu i'n staff a thenantiaid deimlo'n falch o'r gwasanaeth.**









Beth am ein dilyn ar Facebook i gael y newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf?





**@TaiSirDdinbych.DenbighshireHousing**















# Gwefan yn dod yn fuan

Yn y gwanwyn byddwn ni'n lansio gwefan newydd ar gyfer Gwasanaethau Tai Sir Ddinbych.

**www.taisirddinbych.co.uk**

Bydd hyn yn rhoi mynediad gwell i chi at wybodaeth ar lein a ffyrdd haws i gysylltu â ni.

Os oes gennych chi syniadau neu bethau yr hoffech eu gweld ar ein gwefan, rhowch wybod i ni.



# Buddsoddi yn ein cymunedau

**Rydym wedi gweld buddsoddiad sylweddol yn ein cymunedau ledled Sir Ddinbych. Yn yr adran hon, byddwn yn tynnu sylw at rai o'r prosiectau yr ydym wedi'u cyflwyno a sut maen nhw'n gwella eich lles.**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Ffordd Caradoc, Prestatyn



Cynt



Wedyn

**Rhdym yn falch iawn o gyflwyno cynllun gwella £1m arloesol o 33 fflat yn Ffordd Caradog, Prestatyn.**

Darparodd y prosiect ailfodelu arloesol o'r fflatiau a'u hamgylchedd cyfagos. Roedd y gwaith ailwampio'n cynnwys:

- cladin a rendro allanol newydd,
- toeau newydd,
- ffenestri a drysau gwydr gradd 'A',
- boeleri effeithlonrwydd uchel,
- amnewid llwybrau i ategu at y tirlunio,
- tirlunio amgylcheddol,
- gwella grisiau a deciau mynediad cymunedol, a
- goleuadau ynni effeithlon.



Ar ôl cwblhau'r gwaith, roedd y preswylwyr yn elwa o fflatiau ynni effeithlon, ymddangosiad modern newydd a gerddi wedi'u tirlunio.



## Gwelliannau ardal chwarae

**Beth am fynd i un o'n mannau chwarae sydd wedi'u gwella'n ddiweddar a chael antur?**

Rydym am annog plant i ddysgu trwy chwarae, a dyna pam fod ein rhaglen gwella meysydd chwarae a thirlunio eisoes wedi dechrau cymryd ffurf. Mae angen uwchraddio nifer o'n mannau chwarae oherwydd bod yr offer yn hen ac yn flêr. Roedd y safleoedd hefyd yn hyll, heb lawer o fuddsoddiad ac felly nid oedd y cymunedau lleol yn ymweld â hwy.

Gan weithio'n agos gyda'r arbenigwyr hamdden, Alliance Leisure, rydym wedi buddsoddi £760k mewn uwchraddio a gwella deg o'n mannau chwarae yn barod, gan gynnwys amrywiaeth o ddarnau offer newydd a heriol. Rydym yn parhau i wella'r ardaloedd chwarae sy'n weddill, dros y ddwy flynedd nesaf. Dewiswyd yr ardaloedd hyn ar gyfer gwelliannau wedi'u seilio ar eu cyflwr a'u haddasrwydd presennol, ac edrychwn ymlaen at weld ein mannau chwarae cymunedol yn brysur unwaith eto.






# Cynllun gwelliannau allanol ac amgáu

Mae rhaglen fawr o welliannau allanol yn digwydd i'n stoc tai ar hyn o bryd. Llwyddodd Gwasanaethau Tai Sir Ddinbych i gyflawni prosiect Inswleiddio Waliau Allanol yw ystod 2016-17 ar y cyd â Llywodraeth Cymru. Er bod y cynllun yn bennaf wedi cyflwyno mesurau effeithlonrwydd ynni, cymerodd y Cyngor y cyfle i gwblhau nifer o welliannau eraill i rai eiddo, gan gynnwys toeau newydd a gwelliannau i'r to.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae blwyddyn gyntaf ein rhaglen amgau allanol hefyd ar y gweill ar hyn o bryd, yn cynnwys:

- toeau newydd,
- rendrau newydd,
- ffasgias, cwteri a soffitiau newydd, a gwelliannau amgylcheddol i ffensys a llwybrau.

Mae'r gwaith gwella yn trawsnewid ymddangosiad ein stadau ac yn helpu i sicrhau bod ein cymdogaethau'n parhau i fod yn lleoedd deniadol i fyw ynddynt. Mae gwaith blwyddyn gyntaf y contract yn cael ei wneud gan Sustainable Building Services, sydd wedi llwyddo i gwblhau gwelliannau i 58 tai ar draws dwy stâd ym Mharc y Dre a Bryn Haul yn Rhuthun a Maesafallen yng Nghorwen. Rydyn nawr yn cyflawno'r un gwelliannau i 60 o tai ar draws sawl stâd yn ne-orllewin y Rhyl. Disgwylir i'r contract gael ei gwblhau ddiwedd hydref 2017, ac yna bydd ail flwyddyn y rhaglen yn cychwyn. Bydd hyn yn gweld gwelliannau tebyg yn cael eu cwblhau i 100 o tai arall yn Llangollen, Rhuthun a'r Rhyl.

Mae'r holl raglenni uchod wedi darparu nifer o fuddion cymunedol i Sir Ddinbych, gan gefnogi'r economi leol trwy gyfleoedd cyflogaeth, masnach a hyfforddiant.



# Parc Bruton

**Mae Parc Bruton wedi cael buddsoddiad mawr dros y 12 mis diwethaf, gan weld gwelliannau i'r ardal chwarae ac ardal y pwll.**



Mae'r pwll wedi'i leoli yng nghanol yr stâd ac mae'n agos at y fynedfa i'r coetir cymunedol. Yn y gorffennol, roedd yr ardal wedi tyfu'n wyllt ac yn dioddef o bobl yn tipio'n anghyfreithlon.

Er mwyn gwella'r defnydd o'r ardal er lles y gymuned, rydym wedi:

- datblygu'r ardal o gwmpas y pwll trwy osod llwybr newydd, seddau pren a phegiau, y gellir eu defnyddio ar gyfer rhwydo mewn pyllau,
- darparu lle diogel a chroesawgar i'r gymuned,
- lleihau tipio anghyfreithlon, a
- cynyddu bioamrywiaeth.





Cawsom ddigwyddiad cymunedol i agor yn swyddogol a dathlu'r holl welliannau yng nghymuned Parc Bruton. Cafwyd hwyl gan bawb a bu'r teuluoedd yn cymryd rhan mewn crefftau, adeiladu blychau adar, paentio wynebau, llinell ddymuniadau cymunedol, cystadlaethau gwisg ffansi, gwneud ceffylau breuddwyd, plannu a llawer mwy.











# Datblygu Cymunedol

**Fel rhan o'n hymrwymiad i'n cymunedau, rydym wedi penodi tîm newydd o Gydlynwyr Datblygu Cymunedol. Bydd y tîm yn gweithio gyda chymunedau i ddatblygu prosiectau yn ein cymdogaethau ac i gefnogi cymunedau i ddod at ei gilydd a threfnu digwyddiadau a phrosiectau drostynt eu hunain.**

Rydym hefyd wedi recriwtio Cydlynydd Cynhwysiant Ariannol a Digidol arbenigol yn benodol i gefnogi'n tenantiaid i fod yn fwy gwydn yn ariannol ac i fynd ar-lein.

Rydym yn cynnal cyfres o Sioeau Teithiol o gwmpas y Sir felly gallch ddod i gwrdd â'n staff, bydd rhagor o fanylion yn cael eu hanfon atoch yn fuan.

Cadwch lygad am y tîm yn gweithio yn eich ardal neu cysylltwch â ni os ydych am drafod unrhyw beth.

## Canolfannau Cymunedol

Rydym yn buddsoddi yn ein canolfannau cymunedol i'w gwneud yn ganolfannau bywiog i'r gymuned:

Hyd yn hyn rydym wedi buddsoddi yn:

- Canolfan "Phoenix" Rhydwen Drive yn y Rhyl,
- Maes Esgob, Dyserth
- Pengwern, Llangollen

Mae gennym gynlluniau i ddatblygu ein canolfannau ym Mhrestatyn a Rhuthun yn ystod y 12 mis nesaf

## Digwyddiadau Cymunedol

Rydym yn cefnogi a chyflwyno nifer o ddigwyddiadau cymunedol, gan gynnwys:

- Diwrnod hwyl a lansiad canolfan Phoenix, Y Rhyl
- Gwelliannau amgylcheddol Bro Havard
- Digwyddiad syniadau canolfan gymunedol Maes Esgob
- Diwrnod Codi Sbwriel gydag Ysgol Melyd yn Gallt Melyd
- Noson Ffilm i 30 o bobl ifanc yn y Rhyl

## Prosiectau

Rydym yn gweithio gyda phartneriaid ar nifer o brosiectau ledled y sir, gan gynnwys:

- "Y Shed" Gallt Melyd - adnodd cymunedol newydd
- Prosiect Cludiant Gwledig ar gyfer De Sir Ddinbych
- Prosiect ymwybyddiaeth o fenthycwyr twyllodrus "Shark Bites"
- Clwb gwaith cartref rheolaidd ar gyfer pobl ifanc yn y Rhyl

# Gofod Gwyrdd

## Prosiect Blodau Gwyllt Pengwern

Yn ystod y misoedd diwethaf, mae'r tîm Gofod Gwyrdd a'r Swyddog Datblygu Cymunedol, Emily, wedi gweithio'n agos gyda grŵp 'Wild Pengwern' i weithredu prosiect peilot gwyllt. Rydym am dynnu sylw at yr angen am lefydd bywyd gwyllt naturiol mewn ardaloedd trefol, i annog peillwyr i fyw yn yr ardal a chynyddu bioamrywiaeth. Mae pedwar gwely blodau wedi eu hadeiladu a'u llenwi â blodau gwyllt i godi ymwybyddiaeth ac annog trigolion lleol i blannu peillwyr yn eu gerddi eu hunain hefyd.





# Arolwg STAR – Arolwg Tenantiaid a Phreswylwyr

**Mae Gwasanaethau Tai Sir Ddinbych wedi gweld newid mawr dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae arnom eisiau codi ein safonau i'r lefel uchaf bosib' ac mae angen i ni weithio gyda chi er mwyn cyflawni hynny.**

Rydym wedi recriwtio tîm newydd o staff er mwyn cynyddu ein gwaith datblygu cymunedol gyda'n holl breswylwyr yn sylweddol, ac mae gennym gynlluniau uchelgeisiol i barhau i wella ein cymdogaethau.

Dyma'r ail arolwg STAR a gynhaliwyd.

Gofynnom 7 cwestiwn craidd sy'n benodol i tai a oedd yn ymdrin ag ansawdd cartrefi, gwerth am arian gyda rhenti a thaliadau gwasanaeth, eich cymdogaeth fel lle i fyw, sut yr ydym yn gwrando arnoch chi a gweithredu ar yr hyn a ddywedoch a'r gwasanaeth cyffredinol a ddarparwn i chi.

Yn ogystal â hyn, gofynnom rai cwestiynau cyffredinol am ein henw da fel gwasanaeth tai, blaenoriaethau, ymddiriedaeth, staff, mynediad digidol, cyfathrebu ac iechyd a lles i roi gwell dealltwriaeth inni am y modd y gallwn wella yn y meysydd hyn.

Cafodd **3,344** o arolygon eu hanfon allan.

Derbyniwyd **592** **(18%)** o arolygon wedi'u cwblhau, **561** o gopiau papur a **31** ar-lein.

Dywedodd **86%** o'n tenantiaid eu bod yn fodlon ar **ansawdd cyffredinol eu cartref**

**2il** yng Nghymru pan y'i meincnodwyd yn erbyn **7** sefydliad.

Dywedodd **85%** o'n tenantiaid eu bod yn fodlon â'r **gymdogaeth gyffredinol.**

**3ydd** yng Nghymru pan y'i meincnodwyd yn erbyn **7** sefydliad.

Dywedodd **85%** o'n tenantiaid eu bod yn fodlon bod eu **rhent** yn rhoi gwerth am arian.

**3ydd** yng Nghymru pan y'i meincnodwyd yn erbyn **7** sefydliad.

Dywedodd **85%** o'n tenantiaid eu bod yn fodlon ar y ffordd rydym yn delio â **gwaith atgyweirio a chynnal a chadw.**

**1af** yng Nghymru pan y'i meincnodwyd yn erbyn **7** sefydliad.

Dywedodd **84%** o'n tenantiaid eu bod yn fodlon gyda'n **gwasanaeth cyffredinol**.

**3ydd** yng Nghymru pan y'i meincnodwyd yn erbyn **7** sefydliad.

Dywedodd **71%** o'n tenantiaid eu bod yn fodlon ar y ffordd rydyn **yn gwrando ac yn gweithredu.**

**3ydd** yng Nghymru pan y'i meincnodwyd yn erbyn **7** sefydliad.



Roedd **45%**

o'r tenantiaid a ymatebodd yn defnyddio'r **rhyngrwyd.**

Cytunodd **71%**

neu'n cytuno'n gryf pan ofynnwyd "Rwy'n byw **ffordd iach o fyw**".

Roedd tenantiaid
**LLANGOLLEN A RHUDDLAN**

yn bennaf yn rhoi sylwadau ar faterion gyda **gwaith trwsio mewnol, trwsio allanol a gwresogi.**

Yn bennaf roedd tenantiaid
**DINBYCH, Y RHYL A PHRESTATYN**

yn rhoi sylwadau ar broblemau gyda **sbwriel, gerddi, goleuadau a baw cŵn.**

Cyfeiriodd tenantiaid
**CORWEN A LLANELWY**

yn bennaf at faterion gyda **pharcio.**

Yn bennaf rhoddodd tenantiaid
**RUTHIN**

sylwadau ar faterion **traffig** ac roeddent am weld mwy o ddigwyddiadau cymunedol, presenoldeb mwy **o swyddogion** a **gwell gwasanaeth bysiau.**

## 3 BLAENORIAETH EIN TENANTIAID


1. **Trwsio a chynnal a chadw**
2. **Gwrando ar farn trigolion a gweithredu arnyn nhw**
3. **Ansawdd cyffredinol eich cartref**

## BETH NESAF?

- Byddwn yn edrych ar y modd yr ydym yn cynnal ein **Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw** i weld a allwn wella'r gwasanaeth hwn, sef y brif flaenoriaeth i'n cwsmeriaid.
- Byddwn yn parhau i wella'r ffordd yr ydym yn **gwrando ar ein cwsmeriaid a chyfathrebu sut yr ydym yn gweithredu ar eu safbwyntiau.**
- Byddwn yn edrych ar sut y gallwn wella **mynediad i'r rhyngrwyd** i'n cwsmeriaid.
- Byddwn yn edrych ar ffyrdd o hybu **iechyd a lles** yn ein cymunedau.
- Byddwn yn ymchwilio i adborth am **faterion parcio** yn Llanelwy a Chorwen.
- Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid efo **materion cymunedol cyffredinol** yn Ninbych, Prestatyn a'r Rhyl.
- Byddwn yn cynyddu ein **hymgysylltiad** â phob cymuned, yn enwedig yn Llangollen i sicrhau bod ein cwsmeriaid yn teimlo ein bod yn **gwrando ac yn gweithredu ar eu safbwyntiau**.

# Y 12 mis nesaf ar gyfer tai a'n tenantiaid

## Cyhoeddi ein prosiect gwella amgylcheddol gwerth £1.2 miliwn ar gyfer 2017-18 yn Llanelwy




Rydym yn falch iawn o gael rhoi gwybod i chi am brosiect mawr i wella'r amgylchedd gwerth £1.2m sydd wedi'i gynllunio ar gyfer un o'n cymunedau yn Llanelwy. Mae'r prosiect yn rhan o'n ymrwymiad i fuddsoddi yn ein cymunedau a chynnal ardaloedd cadarnhaol i fyw ynddynt wrth wella cymdogaethau, isadeileddau a'r gymuned ehangach.

Bydd y prosiect cyffrous hwn yn darparu nifer o welliannau i'r gymuned, i creu priffyrdd a llwybrau troed, ynghyd â thirlunio amgylcheddol. Ar ôl cwblhau'r gwelliannau bydd yr ardal yn elwa o gyfleusterau parcio gwell, mesurau gostegu traffig ac ardaloedd agored wedi eu tirlunio. Daw buddsoddiad yn y prosiect o Wasanaethau Tai Sir Ddinbych, gyda chymorth ehangach gan y Cyngor Sir, Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Gwella Ystâd Bro Havard
# Bro Havard Estate Improvement




**Drwy gydol yr ystad, fe fyddwnyn** - ailadeiladu'r ffyrdd a llwybrau cerdded
- yn gwella mesurau gostegu traffig
- yn datblygu'r mannau gwyrdd i wella ymddangosiad yr ystad

**Throughout the estate we will**
- be reconstructing the roads and footpaths
- improving traffic calming measures
- developing the green spaces to enhance the appearance of the estate

**Cam 1 - Tu blaen i fflatiau Heol Afon a Stanley Park**
- Bydd mannau parcio y tu allan i'r fflatiau yn cael eu hymestyn a'u ffurfioli er mwyn lliniaru tagfeydd ar ffordd.
- Bydd y gofod o flaen Stanley Park yn cael ei ddatblygu i gynnwys ffordd fynediad a mannau parcio ar gyfer preswylwyr y byngalos.
-Byddwn yn gwella'r man agorad drwy dirlunio.

**Phase 1 - The front of Heol Afon Flats and Stanley Park**
- The parking outsiade the flats will be extended and formalised which will ease congestion on the road.
- The space at the front of Stanley Park will be developed to include an access road and parking for the residents of the bungalows.
- We will improve the open area with landscaping



**Cam 2 - Llwyn Elwy a Bro Havard**
- Tirlunio'r ddau fynediad a'r ardal wrth ymyl y cae chwarae a'r llecyn gemau amlddefnydd.
- Cynnwys parcio ychwanegol o amgylch y triongl.

**Phase 2 - Llwyn Elwy and Bro Havard**
- Landscaping both entrances and the area next to the playground and MUGA.
- Including extra parking around the triangle.




# Gwella Ystâd Bro Havard
# Bro Havard Estate Improvement







Ardal gymunedol gyda seddi.

Community space with seating.


Ardal o flodau gwyllt lluosflwydd i ddarparu lliw ac i helpu pryfed peillio.

Perennial wildflower area to provide colour during the summer and help pollinators.

Plannu coed a llwyni brodorol i annog bioamrywiaeth.

Native species tree and shrub planting for year round interest and to encourage bio-diversity.

**Gwella Ystâd Bro Havard - Parc Stanley**
**Bro Havard Estate Improvement - Stanley Park**




Dechreuodd y gwaith paratoi fis Ebrill 2017, ond bydd y prosiect yn cychwyn yn llawn ym mis Medi. Byddwn yn eich diweddaru ar gynlluniau manwl y prosiect trwy'r flwyddyn. Cynhaliodd Gwasanaethau Tai Sir Ddinbych ddigwyddiad gwybodaeth cymunedol ym mis Awst ym Mharc Stanley, gan arddangos ein cynlluniau yn fanwl, cyfle i gwrdd â'r contractwr a phrynhawn hwyl i'r teulu. Cafodd pawb lawer o hwyl.

# Rhaglen Gwella Gofod Gwyrdd:

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Rhuddlan**

Bydd yr ardal o gwmpas Tan Yr Eglwys yn gweld gwelliant sylweddol i'r gofod parcio a'r mynediad i eiddo trwy ein rhaglen Gwella Gofod Gwyrdd. Y flaenoriaeth ar gyfer yr ardal yw plannu coed a llwyni cymdogol i wella ac annog amgylchedd mwy naturiol a chroesawgar a fydd yn gwella bioamrywiaeth yn yr ardal.







**Aberchwiler**

Bydd tenantiaid ym Mhorth Y Wern hefyd yn gweld eu uwchraddio i mannau tu allan eleni, gyda phlannu coed cymdogol a llwyni i wella ac annog amgylchedd croesawgar iddyn nhw. Bydd y rhaglen waith hefyd yn cynnwys gwell parcio a gwell mynediad i eiddo, gan ddefnyddio arwyneb resin, trawiadol.







**Bodfari**

Bydd yr ardal o gwmpas Maes y Graig yn gweld gwelliant sylweddol i'w parcio a mynediad i tai trwy ein rhaglen Gwella Greenspace. Y flaenoriaeth ar gyfer yr ardal yw darparu parcio ar lefel ac yng nghefn y tai, bydd yr ardal yn cael ei wella gyda lawntiau newydd o lawnt a dolydd. Bydd y gwelliannau hyn yn gwella bioamrywiaeth ac yn integreiddio'r datblygiad presennol i'r cefn gwlad lleol.





# Sut gallwch chi gymryd rhan?



**Rydym am i'n holl denantiaid:**

- gael llais ar sut mae ein gwasanaethau'n cael eu darparu,
- gweithio mewn partneriaeth â ni i barhau i wella eu cartrefi a'u cymunedau,
- gallu rhoi adborth i ni i wella ein gwasanaethau, ac

**I'n helpu i gyflawni hyn, rydym yn awyddus i glywed gennych. Os hoffech wirfoddoli a chymryd rhan. Mae gennym nifer o gyfleoedd a gweithgorau yr ydym yn edrych arnynt yn y dyfodol, gan gynnwys:**

- Golygu newyddlen
- Adborth Tenantiaid
- Cynhwysiant Digidol
- Cynhwysiant Ariannol
- Datblygu cymunedol

**Os ydych chi'n teimlo bod gennych unrhyw sgiliau a fyddai o fudd i'n hymrwymiad i fuddsoddi yn ein cymunedau a'u gwella, neu os ydych am ddatblygu sgiliau newydd, yna cysylltwch â ni ar 01824 708367 neu tai@sirddinbych.gov.uk**

# Ceidwaid Gwyrdd

Mannau gwyrdd
Greenspace

A allwch chi sbârio ychydig oriau y mis?

Oes gennych chi ddiddordeb yn eich amgylchedd a sut mae'n edrych yn y gymuned?

Beth am fod yn un o'n Ceidwaid Gwyrdd ?

Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch â:

Sarah Jones

Cydlynydd Datblygu Cymunedol

## 01824 706873





# Amser Cystadlu!



**Hoffem i chi fod yn rhan o enwi ein newyddlen tenantiaid. Rydym am i'r enw eich adlewyrchu chi, ein cymunedau a chydweithio. Mae'r dyddiad cau ar 30 Tachwedd 2017 a byddwn yn cyhoeddi'r enw buddugol yn y Flwyddyn Newydd.**

Gallwch gyflwyno eich awgrymiadau i:

tai@sirddinbych.gov.uk

Gwasanaethau Tai Sir Ddinbych, Cyngor Sir Ddinbych, Blwch Post 62, Rhuthun, LL15 9AZ.

01824 708 367

# Lansio cynllun cofrestr tai newydd - SARTH

**Mae system newydd sbon, sy'n hawdd ei defnyddio, i wneud cais am dŷ cymdeithasol yn Sir Ddinbych yn fyw.**

Mae Cofrestr Tai Sir Ddinbych o'r enw SARTH (y Llwybr Mynediad Sengl i Dai), yn bartneriaeth ar y cyd rhwng Cyngor Sir Ddinbych, Grŵp Cynefin, Clwyd Alyn, Tai Gogledd Cymru a Wales and West Housing.

Mae Cofrestr Tai SARTH yn darparu unrhyw un sy'n gwneud cais am dai cymdeithasol yn Sir Ddinbych gydag un pwynt cyswllt ac un broses ymgeisio. Gan fod y gofrestr yn cael ei rhannu rhwng y Cyngor a'r cymdeithasau tai lleol, dim ond un rhestr dai sydd yna ar gyfer Sir Ddinbych. Bydd hyn yn arbed amser, yn osgoi dyblygu gwasanaethau ac yn symleiddio pethau i gwsmeriaid.

Bydd pobl sydd â chysylltiad lleol â Sir Ddinbych yn cael blaenoriaeth ar gyfer tai yn y Sir. Unwaith y bydd yr wybodaeth wedi dod i law, bydd pobl yn cael eu rhoi mewn un o bedwar band, yn dibynnu ar yr wybodaeth a ddarparwyd ganddyn nhw. Y bandiau yw:

1. Angen brys am dŷ – cysylltiad lleol
2. Angen am dŷ – cysylltiad lleol
3. Angen brys am dŷ – dim cysylltiad lleol
4. Angen am dŷ – dim cysylltiad lleol

Am fwy o wybodaeth ynglŷn â meini prawf cymhwyster a'r broses yn ei chyfanrwydd, ewch i: **http://www.denbighshire.gov.uk/housingregister.**

# Hawl i Brynu

**Ysgrifennom atoch ym mis Mawrth 2016 i'ch hysbysu o'n bwriad i wneud cais am atal yr Hawl i Brynu.**

Gallwn gadarnhau bod Gwasanaethau Tai Sir Ddinbych wedi bod yn llwyddiannus wrth wneud cais i Lywodraeth Cymru am atal Hawl i Brynu cartrefi'r Cyngor yn y Sir. Bydd yr ataliad yn para am gyfnod o 5 mlynedd i ddechrau, a bydd hefyd yn cynnwys cartrefi sy'n eiddo i Gymdeithasau Tai.

Cymeradwywyd yr ataliad ar y sail bod angen difrifol am dai yn y Sir ac mae colli cartrefi pellach i'r system Hawl i Brynu yn golygu nad yw'r Cyngor yn gallu darparu'r nifer o gartrefi sydd eu hangen. Yn ogystal, cydnabwyd Llywodraeth Cymru cynllunidau uchelgeisiol y Cyngor i fuddsoddi yng nghymunedau Sir Ddinbych gyda'r nod o gyflwyno 170 o gartrefi newydd dros y 5 mlynedd nesaf.

# Rheoli eich Arian

## – Credyd Cynhwysol, ydych chi'n barod?

UC Credyd Cynhwysol UC Universal Credit

**Mae rhai newidiadau mawr yn digwydd i sut y telir budd-daliadau lles. Bydd Credyd Cynhwysol yn disodli rhai budd-daliadau a chredydau treth ar gyfer pobl sydd mewn ac allan o waith.**

**Fe fyddwch chi'n cael eich heffeithio os byddwch yn derbyn:**

- Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm
- Budd-dal Tai
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail Incwm
- Cymhorthdal Incwm
- Credyd Treth Plant
- Credyd Treth Gwaith

Bydd y ffordd y byddwch chi'n cael eich arian a sut y caiff ei dalu hefyd yn newid - yn wahanol i rŵan, eich cyfrifoldeb chi fydd sicrhau bod yr arian a gewch ar gyfer eich rhent yn cael ei dalu i ni.

**Ardal Llangollen a Chorwen, Hydref 2017**

**Ardal Gogledd Sir Ddinbych Chwefror 2018**

Os oes angen unrhyw gyngor arnoch neu os oes gennych unrhyw bryderon mae ein staff yma i'ch helpu chi. Mae gennym staff Rheoli Incwm, eu gwaith yw gwneud yn siŵr eich bod yn gallu gwneud eich taliadau rhent, ond gallant eich cynghori a'ch cefnogi gymaint ag y gallwn, felly cysylltwch â chi cyn i chi fynd i drafferth ar **01824 708 367.**

Byddwn yn cysylltu â chi i trafod y newidiadau dros yr wythnosau nesaf.



# Cynlluniau Adeiladu Newydd

**Rydym yn falch o roi gwybod i chi byddwn yn adeiladu cartrefi cyngor newydd sbon am y tro cyntaf ers 25 mlynedd. Ein cynllun yw adeiladu 170 o gartrefi newydd yn y pum mlynedd nesaf a fydd yn darparu tai o ansawdd uchel sydd mawr ei angen ar gyfer pobl Sir Ddinbych.**







Llun gan: AG Architect



Llun gan: AG Architect





# Incwm ac Ardaloedd Cymdogaeth

**Hoffem gyflwyno eich swyddogion Incwm a Chymdogaeth newydd.**

**Chris Wynne**
Swyddog Rheoli Incwm
01824 706025 / 07795 060914
chris.wynne@sirddinbych.gov.uk

**Helen Stanfield**
Swyddog Cymdogaeth Tai
01824 712962 / 07768 171584
helen.stanfield@sirddinbych.gov.uk

**Dawn Barraclough**
Cynorthwy-ydd Cymdogaeth Tai
01824 706909 / 07768 615986
dawn.b.jones@sirddinbych.gov.uk

**Emma Fletcher**
Swyddog Rheoli Incwm
01824 712961 / 07831 759278
emma.fletcher@sirddinbych.gov.uk

**Sian Frost**
Swyddog Cymdogaeth Tai
01824 706055/ 07827 823332
sian.frost@sirddinbych.gov.uk

**Carmel Rider**
Cynorthwy-ydd Cymdogaeth Tai
01824 712912 / 07769 905936
carmel.rider@sirddinbych.gov.uk

**Dewi Proffit**
Swyddog Rheoli Incwm
01824 706024 / 07785 469841
dewi.proffit@sirddinbych.gov.uk

**Louise Ellams**
Swyddog Cymdogaeth Tai
01824 712969 / 07990 585390
louise.ellams@sirddinbych.gov.uk

**Linda Mair Jones**
Cynorthwy-ydd Cymdogaeth Tai
01824 712914 / 07920 846052
linda.m.jones@sirddinbych.gov.uk

**Louise Jones**
Swyddog Rheoli Incwm
01824 712247 / 07917 172680
louise.jones@sirddinbych.gov.uk

**Claire Hall**
Swyddog Cymdogaeth Tai
01824 706074 / 07810 528958
clare.hall@sirddinbych.gov.uk

**Bethan Parry**
Cynorthwy-ydd Cymdogaeth Tai
01824 706064 / 07809 586033
bethan.parry@sirddinbych.gov.uk

